Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Ad-drefnu'r Cabinet

9 Hydref 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Medi, pan wnaethoch ofyn:

> *I read with interest your recent Cabinet reshuffle and new appointments and noticed that you had appointed Mr Mark Drakeford as your Finance Minister. I would like to know if Mr Drakeford is drawing his private pension from WAG as well as now being paid as Finance Minister. If so could you please let me know how much is being paid as pension and salary.*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw bensiynau preifat gan Lywodraeth Cymru a allai fod ar gael i Mark Drakeford AS. Mater i Lywodraeth Cymru fyddai hyn, felly anfonwch e-bost at **Freedomofinformation@gov.cymru** i ofyn am y wybodaeth ganddynt.

***Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a Chomisiwn y Senedd***

O dan arweiniad Prif Weinidog Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am feysydd fel llywodraeth leol, yr amgylchedd, busnes, yr economi, iechyd, tai, addysg, iaith, diwylliant a thwristiaeth a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n penderfynu sut a lle i wario ei chyllideb, mae'n creu a gweithredu polisïau ac yn cynnig cyfreithiau newydd. Caiff rhywfaint o'r arian hwnnw ei drosglwyddo i awdurdodau lleol i redeg eu gwasanaethau.

Enwebir y Prif Weinidog gan y Senedd:  Dewisir Gweinidogion Cymru a dirprwy Weinidogion Cymru gan y Prif Weinidog, nid y Senedd.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

Y **Senedd** (Senedd Cymru) yw’r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd sy’n cynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, sy’n deddfu ar gyfer Cymru (ar faterion nad ydynt wedi’u cadw yn ôl gan Senedd y DU), sy’n cytuno ar drethi yng Nghymru, ac sy’n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.   Comisiwn y Senedd yw’r corff corfforaethol sy’n darparu’r eiddo, y staff a’r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd.

***Gwybodaeth am bensiwn***

Comisiwn y Senedd sy’n gweinyddu'r Cynllun, ac mewn rhai amgylchiadau, mae gan Fwrdd Pensiwn Cynllun Pensiwn yr Aelodau o’r Senedd, ddisgresiwn dros bwy sy'n derbyn rhai buddion penodol fel y nodir yn **Rheolau'r Cynllun**.

Mae rhagor o wybodaeth yn **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynllun**. Mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chyhoeddi ar-lein **mps-trustee-report-and-accounts-2023-24-final-welsh-web-unsigned.pdf**

Mae Bwrdd Pensiwn yr Aelodau yn annibynnol ar Gomisiwn y Senedd ac nid yw'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“y Ddeddf”), felly nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas ag elfen bensiwn eich cais.

Er gwybodaeth, ni all Aelodau o'r Senedd sy'n gwasanaethu dynnu eu pensiwn i lawr.

***Gwybodaeth am gyflog***

Mae **Bwrdd Taliadau Annibynnol** y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar lefel y taliadau a’r system o gymorth ariannol i Aelodau sy’n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau.  Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn y **Penderfyniad** a gyhoeddir gan y Bwrdd.

Mae pob Aelod yn cael cyflog yn unol â darpariaeth a wneir gan y Bwrdd, fel y nodir yn y **Penderfyniad ar gyflog a lwfansau Aelodau** (Pennod 3, Tabl 1). Yn ogystal, mae gan rai Aelodau swyddi ychwanegol, gan gynnwys fel Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.  Mae Tabl 1 yn y Penderfyniad hefyd yn cynnwys cyflogau i ddeiliaid swyddi, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, a gaiff ei dalu fel un o Weinidogion Cymru.  Mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd dalu'r cyflog a bennir gan y Bwrdd.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, neu ar gael yn rhannol, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o’r Ddeddf  sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF